

CYNLLUNIO MAWRTH 2019

“Pam fod angen ailwampio'r system gynllunio”

18/03/2019 Stefan Webb

Future Cities Catapult

Fel mae unrhyw un sydd wedi gorfod ymgysylltu ag unrhyw gyfnod yn y broses gynllunio'n gwybod mae'n siŵr, gall fod yn lle brawychus i gamu i mewn iddo, ac fel y cyfryw dim ond yr ychydig detholedig sydd mewn gwirionedd yn elwa o'r fath ymgysylltiad.

Mae cymhlethdod yr iaith a'i brosesau hynafol, ynghyd ag aml wasgu-dwylo poenus proffesiynol, yn medru gwneud i'r broses ddatblygu ymddangos hyd yn oed fel un sydd wedi ei chuddio'n fwriadol oddi wrth bobl ar y tu allan. A hyn i gyd yn peri i'r broses hanfodol hon fod yn enwog o amhoblogaidd.

Yr hyn sydd ar y system gynllunio ei hangen mewn gwirionedd yw ailwampio digidol i helpu i'w sefydlu ar gyfer dyfodol lle gall ymgysylltu, eglurder gweledigaeth a chydweithio ddod yn fuan iawn yn norm.

Mae gwreiddiau anhryloywder y system yn amrywio. Mae jargon cynllunio'n sicr yn creu rhwystrau sy'n ei gwneud yn anodd i bobl ar y tu allan ddeall y broses. Mae hyn wedyn yn cael ei waethygu gan y ffaith bod y rhai sy'n gwarchod y fynedfa i wybodaeth – datblygwyr, ymgynghorwyr, cynllunwyr, asiantaethau seilwaith, a gwleidyddion yn eu plith – yn dal i gyfnewid gwybodaeth gritigol yn yr iaith hon a thrwy hynny'n cynnal ei natur gyfyngedig.

Ffaith arall yw'r modd y caiff yr wybodaeth ei harchifo. Yn rhy aml o lawer mae'n cael ei gosod mewn ffeil ar yriant preifat (neu, gwaeth fyth, mewn cypyrddau ffeilio!).

Gan amlaf, mae hyn oherwydd mai ôl-ystyriaeth fel arfer yw cydnabyddiaeth o werth gwneud yr wybodaeth hon yn un i'w rhannu. O'r cychwyn cyntaf, nid yw rhannu byth yn cael ei sefydlu fel rhan hanfodol o'r ddogfennaeth. Mae gwybodaeth yn cael ei dal yn yr hyn sydd mewn gwirionedd yn gofnodion analog – ar eu gorau mewn fformatau perchnogol na ellir eu darllen ar beiriant, ac ar eu gwaethaf ar bapur. Gall hyn ar adegau fod hyd yn oed yn benderfyniad bwriadol ar ran yr arbenigwr.

Y naill ffordd neu'r llall, mae'r diffyg tryloywder hyn ac anghymesuredd gwybodaeth yn ganolog i weithrediad gwael y farchnad dai a datblygu. Mae'n golygu bod y rhwystrau i fynediad yn enfawr hyd yn oed i'r datblygwyr tramor mwyaf. Mae Skanska a Bouygues, er enghraifft, wedi ymdrechu am ddegawd cyn cael mynediad i farchnad dai'r DU.

Pa obaith, felly, sydd yna i herwyr ac aflonyddwyr a fyddai'n annog cystadleuaeth ac yn hybu safonau?

Heb weithredu, bydd y status quo yn parhau. Bydd cynllunwyr, cynllunio, a datblygu'n gyffredinol, yn parhau i gael eu gwneud yn fychod dihangol ar gyfer yr hyn sy'n un o swyddogaethau hollbwysig cymdeithas. Mae gan y cyhoedd hawl i gwyno: mae gan ddinasoedd ddyletswydd ddemocrataidd i gynyddu gwybodaeth eu dinasyddion am y modd y mae cynllunio'n gweithio a'u hymgyfraniad yn y modd y bydd dinasoedd yn edrych ac yn gweithredu yn y dyfodol.

Yr hyn nad yw dinasoedd yn ôl pob golwg yn ei sylweddoli yw y byddai mwy o dryloywder yn effeithio'n gadarnhaol ar dderbyniad dinasyddion o ddatblygiad newydd. Mae gwrthod datblygiad yn ymateb naturiol os nad ydych yn deall beth ydyw, sut y daeth i fodolaeth, na'i effaith tebygol – os yr ydych yn teimlo eich bod wedi cael eich cau allan.

Ymddengys bod byd data dadansoddol, data mawr a dysgu am beiriannau wedi anwybyddu'r system gynllunio. Eto yn baradocsaid, o holl wasanaethau cyhoeddus dinasoedd, y system gynllunio o bosib sy'n gwario'r mwyaf o arian ar gynhyrchu ac adfer data.

Mae'r data hwn sydd ei angen (fel arfer fel canlyniad i reoleiddio a deddfu) i ddarparu sylfaen dystiolaeth ar gyfer ceisiadau cynllunio, uwchgynlluniau a chynlluniau dinasoedd, yn cael ei ddal mewn systemau rheoli niferus sy'n gorgyffwrdd ag iddynt ddim neu ychydig iawn o ryngweithredu, ac sy'n anhygyrch i beiriant a dinesydd.

Er hynny mae gan offerynnau digidol a delweddu data eisoes hanes hir o drosi syniadau cymhleth neu niwlog a chynyddu eu heglurder a'u hygyrchedd.

Mae Gov.UK yn enghraifft ardderchog o'r modd y gall eglurder iaith a dylunio wella ymgysylltiad dinasyddion â gwasanaethau cymhleth y llywodraeth. Mae systemau cyfuno data megis y rhai a ddefnyddir gan [CityMapper](#) – ap ffôn-clyfar sy'n cyfuno data sydd ar gael i bawb am drafnidiaeth gyhoeddus – yn darparu ffenestr sengl i gronfa o wybodaeth gyhoeddus sy'n anhygoel o gymhleth a datgymalog. Ac mae proses mapio trosedd Gwasanaeth yr Heddlu Metropolitan yn symleiddio archwilio data i ddinasyddion, oedd unwaith wedi ei gloi mewn cofnodion analog.

I ddinasoedd i ennill llwyddiant cyffelyb gyda data cynllunio, bydd yn rhaid i gynllunwyr weithio gydag arbenigwyr mewn profiad defnyddwyr, dylunwyr gwasanaethau, delweddwyr data a dylunwyr meddalwedd i ddeall y lefel briodol o fanylder a dylunio ar gyfer gwahanol ddefnyddwyr y system gynllunio.

Yn ffodus, mae busnesau newydd eisoes yn dechrau dangos sut all hynny weithio. Mae Urban Intelligence sydd wedi ei leoli yng Nghaerdydd, er enghraifft, yn adeiladu cronfa ddata sengl a pheiriant chwilio o bolisi cynllunio'r DU, gan alluogi cynllunwyr, datblygwyr a dinasyddion â'r gallu i gyrchu'n gyflym y polisi cynllunio y maent yn dymuno ei adolygu. Ac mae Land Insight yn symleiddio'r broses a ddefnyddir gan ddatblygwyr i chwilio am dir drwy ddarparu hanes cynllunio, gwybodaeth am berchnogaeth a gwybodaeth am werthiannau mewn fformat hawdd-ei-gyrchu.

Gall y bydd beirniaid yn dadlau bod agor y system gynllunio i ganiatáu mwy o fewnwelediad a mynediad i fwy o ddefnyddwyr yn amharu ar broffesiynoldeb y proffesiwn cynllunio. Ond, mewn gwirionedd, bydd meddalwedd a deallusrwydd artiffisial p'run bynnag, cyn bo hir yn disodli llawer o'r gweithgareddau gwerth-is mewn cynllunio a thirfesur – megis casglu a chyfuno data.

Nawr yw'r foment pan fedr cynllunwyr ffocysu'n egniol ar werth uwch, elfennau creadigol cynllunio a llunio-lleoedd cyn i dechnoleg eu gorfodi i wneud hynny.

Dim ond datblygwyr, gwleidyddion a chynllunwyr diegwyddor sydd ag unrhyw beth i'w ofni o gynnydd mewn tryloywder y sector gynllunio. Bydd pawb arall yn gallu mwynhau ecosystem ddatblygu lle mae safonau'n codi oherwydd cystadleuaeth gynyddol a deallusrwydd y cyhoedd o ddatblygu – a fydd yn eu gwneud yn fwy parod i dderbyn ac ymgysylltu – a hynny oherwydd eu bod yn deall sut mae'n gweithio.

Dyna ddyfodol y dylem i gyd fod yn gweithio'n galed i'w adeiladu gyda'n gilydd.

CYNLLUNIO MAWRTH 2019

Mewnwelediad i sgiliau a meddylfryd cynllunydd

26/03/2019 Phil Williams

Ar ôl treulio 40 mlynedd fel cynllunydd llywodraeth leol, rydw i nawr yn gyfarwyddwr cynllunio yn fy mhraectis ymgynghori fy hunan.

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng y ddwy rôl? Ychydig iawn, os yr ydych yn deall mai rôl cynllunydd yw darparu prosiectau cynaliadwy wedi eu dylunio'n dda sy'n gwarchod a gwella'r amgylchedd adeiladol a naturiol, sy'n hybu ffyniant economaidd ac adfywiad ac sy'n sicrhau cydlyniad cymdeithasol a diwylliannol.

Mae'r sgiliau sydd eu hangen i fod yn gynllunydd llwyddiannus yn niferus, ond yn ganolog i bopeth mae meddylfryd seiliedig ar ddiueddrwydd gwleidyddol, unplygrwydd, tryloywder, gwrthrychedd, y gallu i greu cydbwysedd rhwng hawliau cystadleuol, a mesur opsiynau sy'n cael eu ffafrio ar sail tystiolaeth gadarn.

Mae cyflwyniad y [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru](#) wedi ychwanegu dimensiwn newydd ac angenrheidiol i'n meddylfryd strategol, drwy sicrhau ein bod yn talu'r un sylw i'r dyfodol hirdymor ag i'r presennol.

Gellir ymgymryd â chynllunio ar sawl lefel; creu cynlluniau strategol ar lefel cenedlaethol a rhanbarthol neu hybu cynlluniau sy'n seiliedig yn y gymuned sy'n dylanwadu ar sut mae datblygu'n digwydd ar lefel lleol.

Mae'r rôl yn amrywio; gall fod yn ymwneud ag edrych ar strategaeth tai neu ddatrysiadau cyflogaeth yn y bore ac effaith estyniad tŷ yn y prynhawn.

Mae'r newid yn y pwyslais mewn ymgynghoriadau cyhoeddus dros y blynyddoedd diwethaf wedi cael eu croesawu, gyda'r ffocws ar waith cynllunio sy'n rhagori wrth wasanaethu pobl a chymunedau.

Yn gynyddol, mae'r ffocws wedi ei gyfeirio at ymgysylltu yn hytrach nag ymgynghori; gwranddo ar ddyheadau'r unigolyn, y gymuned, a rheoli disgwyliadau gwleidyddol. Mae gwranddo'n sgil hanfodol a'n rôl ni yw gwranddo ac ystyried pob cyfraniad a cheisio dylanwadu ar ganlyniadau a fydd o les i'r cyhoedd.

Ar lefelau cenedlaethol a byd-eang, fel cynllunwyr gallwn chwarae rôl bwysig wrth fynd i'r afael â heriau lefel uchel megis gwella llesiant ac ansawdd bywyd drwy asesu effeithiau ar iechyd, monitro ansawdd aer, cydraddoldeb rhwng y rhywiau a fframweithiau trafnidiaeth gynaliadwy.

Ychwanegwch at y rhestr yr heriau a ddygir gan y newid yn yr hinsawdd, yn arbennig y cynnydd parhaus yn lefelau'r môr, ac rydych yn gweld sut yr ydym yn chwarae rhan ganolog mewn helpu i roi atebion i heriau sylfaenol yn y gymdeithas sydd ohoni.

Cawn ein gweld gan rai pobl fel presenoldeb angenrheidiol ond annymunol, tra bod eraill yn ein gweld fel darparwyr datrysiadau i broblemau na ellir eu cyflawni gan unrhyw un arall. Ymddengys i mi fod y cynllunydd yn ychwanegu gwerth i'r broses!

Ychwanegwch at y rhestr yr heriau a ddygir gan y newid yn yr hinsawdd, yn arbennig y cynnydd parhaus yn lefelau'r môr, ac rydych yn gweld sut yr ydym yn chwarae rhan ganolog mewn helpu i roi atebion i heriau sylfaenol yn y gymdeithas sydd ohoni.

Cawn ein gweld gan rai pobl fel presenoldeb angenrheidiol ond annymunol, tra bod eraill yn ein gweld fel darparwyr datrysiadau i broblemau na ellir eu cyflawni gan unrhyw un arall. Ymddengys i mi fod y cynllunydd yn ychwanegu gwerth i'r broses!

Mae'r system gynllunio wedi bod yn gweithredu yn y DG ers dros 100 mlynedd; dathlodd [Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol](#) ei ganmlwyddiant yn 2014. Mae ganddo dros 25,000 o aelodau ar draws y byd a heb yr arbenigedd a'r dylanwad hwnnw, byddai cymdeithas ar bob lefel, a'r amgylchedd adeiladol naturiol sy'n dibynnu arnynt, yn waeth eu byd.

Bydd angen i gynllunwyr y dyfodol fod yn warcheidwaid a llunwyr penderfyniadau cadarnhaol sy'n ymateb i heriau cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn brif ffynhonnell dylanwad, ac mae angen i gynllunwyr ei defnyddio wrth feddwl o ddydd i ddydd. Mae angen iddi gael ei gweld fel newid pwysig yn ein dulliau o feddwl a'i gwneud yn rhan hanfodol o'n DNA.

Gweler mwy o wybodaeth am Phil Williams ar ei [broffil LinkedIn](#).